PWYSIG
Cyfarwyddiadau I'r Meddyg Yn Yr Ysbyty

Mae gan y plentyn hwn ddiagnosis o

.....

.....

Os bydd y plentyn hwn yn dod i'r ysbyty fel achos brys, argymhellir ei reoli yn y ffordd ganlynol:

- Gwnewch brofion gwaed ar gyfer Wrea ac Electrolytau (U&E), glwcos gwaed ac unrhyw brofion perthnasol eraill e.e. meithriniadau gwaed, yn ôl yr angen.
- Gwiriwch glwcos gwaed y capilariau.
- Rhowch hydrocortison mewnwythiennol (IV) ar ffurff bolws (dos yn unol â Thabl 2). Diangen os yw'r plentyn wedi cael hydrocortison mewngyhyrol (IM) o fewn y 4 awr flaenorol.
- Dechreuwch arllwysiad mewnwythiennol o heli 0.9% decstros 5% ar y gyfradd gynnal (rhowch fwy os fydd diffyg hylif ar y plentyn). Ychwanegwch botasiwm gan ddibynnu ar ganlyniad y prawf electrolytau.
- Os yw glwcos y gwaed <2.5 mmol/L, rhowch folws o 2mL/kg 10% decstros a monitrwch glwcos y gwaed.
- Os yw'r claf yn gysglyd, bod isbwysedd y gwaed arno a'i fod yn cau i lawr yn berifferol, rhowch 20mL/kg o heli normal.
- Rhaid rhoi hydrocortison naill ai yn eneuol neu'n fewnwythiennol os fydd chwydu'n parhau.

Wrth Dderbyn I'r Ysbyty Rhowch Wybod i Dr .....

(Estyniad .....)

- Os oes angen hydrocortison mewnwythiennol, cyfrifwch y dos dyddiol arferol a'i dreblu. Rhowch y dos hwn ar ffurff pedwar dogn wedi'u rhannu'n gyfartal. e.e. os yw'r claf fel arfer ar 10mg/dydd, dos triphlyg = 30mg, a roddir fel 7.5mg qds.
- Ystyriwch rhoi'r dos dyddiol uwch hyn fel arllwysiad mewnwythiennol parhaus i gleifion difrifol wael (50mg o hydrocortison mewn 50mL o heli normal). e.e. os mai 30mg o hydrocortison yw cyfanswm y dos triphlyg, rhowch arllwysiad 1.25mL/awr (30mg/24 awr).
- Os yw'r plentyn hefyd ar DDAVP, bydd angen monitro cydbwysedd hylif yn ofalus ac ystyried newid y dos. Cysylltwch gydag endocrinoleg am gyngor ar newid y dos.
- Gall rhai plant fod ar fludrocortison hefyd. Os fydd y plentyn yn chwydu ac yn methu â goddef hyn yn eneuol, bydd angen monitro electrolytau ddwywaith y dydd a rhoi sodiwm ychwanegol yn fewnwythiennol, yn ôl yr angen
- Unwaith bod y plentyn yn well, dylid lleihau'r dos o hydrocortison yn ôl i lawr i'r dos cynnal arferol ar ôl 2-3 diwrnod (gweler Tabl 1 ar gyfer y dos arferol).

GIG CYMRU NHS WALES

Cerdyn Therapi Amnewid Steroidau Pediatrig

Mae'r cyflwr canlynol ar ddeiliad y cerdyn hwn: ANNIGONOLDEB ADRENAL

Enw: .....

Cyfeiriad: .....

.....

Dyddiad Geni: .....

Rhif Ysbyty: .....

Endocrinolegydd ymgynhorol:

.....

Ysbyty arbenigol: .....

Pediatregydd lleol: .....

Ysbyty lleol: .....

Rhifau Ffôn Defnyddiol: Ysbyty Lleol

Switsffwrdd Ysbyty: .....

Ward: .....

Uned Asesu Pediatrig: .....

Ysgrifenydd(es): .....

Nyrs Arbenigol: .....

Enw/Cyfeiriad Meddyg Teulu: .....

Ffôn: .....

Tabl 1: Triniaeth Eneuol Bresennol

Dyma'r meddyginiaethau y mae'ch plentyn yn eu cymryd ar hyn o bryd. Gofynnwch i'ch meddyg ysgrifennu unrhyw newidiadau i'r dosau gyda dyddiau'r newidiadau.

Dyddiad	Meddyginiaeth	Maint tabled/ cryfder moddion hylifol	Dos arferol	Dos yn ystod salwch (e.e. wedi dyblu)
			Bore:	Bore:
			Canol dydd:	Canol dydd:
			Gyda'r hwyr:	Gyda'r hwyr:
			Bore:	Bore:
			Canol dydd:	Canol dydd:
			Gyda'r hwyr:	Gyda'r hwyr:

Tabl 2: Dos Brys Ar Gyfer Pigiadau Hydrocortison

Oedran y plentyn	Dos y pigiad hydrocortison
Iau nag 1 mlwydd oed	25mg
1 - 5 mlwydd oed	50mg
Hŷn 5 mlwydd oed	100mg

Anesthesia: Gwybodaeth Bwysig

Os bydd angen anesthetig ar eich plentyn, naill ai mewn argyfwng neu fel rhan o driniaeth wedi'i threfnu, siaradwch â'r meddyg sy'n ei dderbyn i'r ysbyty a'r anesthetydd gan fydd angen hydrocortison ar gyfer y driniaeth.

Os Fydd Eich Plentyn Yn Sâl

- Os fydd eich plentyn yn sâl (e.e. annwyd, peswch, dolur gwddf), dylech dyblu'r dos o hydrocortison (gweler Tabl 1 "Dos yn ystod salwch"), tra fod eich plentyn yn parhau i fod yn sâl (2-3 diwrnod yn arferol).
- Os yw'ch plentyn yn cymryd fludrocortison, nid oes angen dyblu hwnnw.
- Rhaid rhoi hydrocortison ar ffurff pigiad os:
  - Nad yw'ch plentyn yn gwella ar ôl i chi gynyddu'r tabedi, neu
  - Yw'ch plentyn yn teimlo'n gysglyd, neu os
  - Nad yw'ch plentyn yn gallu cymryd y tabledi yn eneuol (e.e. o ganlyniad i chwydu parhaus).

Mae'n hanfodol bwysig eich bod yn cadw cyflenwad o bigiad hydrocortison. **Sicrhewch nad yw wedi pasio ei ddyddiad dod i ben.**

- Dangosir y dos brys o bigiad hydrocortison yn Nhabl 2 a bydd hyn yn newid wrth i'ch plentyn fynd yn hŷn. Os bydd angen defnyddio'r pigiad bydd angen sylw meddygol are eich plentyn.
- Os yw eich plentyn yn dal i fod yn sâl er eich bod wedi cynyddu'r hydrocortison, neu'ch bod chi wedi gorfod defnyddio'r pigiad hydrocortison, dylech ffonio'r ysbyty agosaf a dewud eich bod chi'n dod â'ch plentyn i mewn ar gyfer asesiad, neu fynd i'r adran Ddamweiniau ac Achosion Brys. Cofiwch fynd â'r cerdyn hwn gyda chi a dangos y cyfarwyddiadau i'r meddyg sy'n derbyn eich plentyn i'r ysbyty. Os nad oes trafnidiaeth ar gael i chi'n syth, dylech ffonio 999 a rhoi'r cerdyn hwn i griw'r ambiwlans.